GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace

# Ap COVID-19 y GIG Rhagor o Wybodaeth...

Dysgwch ragor am yr ap, pryd i'w ddefnyddio a sut mae'n ffitio mewn i raglen olrhain cysylltiadau ehangach Cymru a Lloegr.

## I ddefnyddio'r ap, rhaid:




Bod dros 16 oed



Byw yng Nghymru neu Loegr



Bod yn berchen ar ffôn Apple neu Android addas gyda Bluetooth wedi'i droi ymlaen

## Beth os nad ydw i'n gallu defnyddio'r ap?



Bydd y bobl olrhain cysylltiadau yn siarad â chi

Peidiwch â phoeni. Mae ap COVID-19 y GIG yn rhan o wasanaeth Profi ac Olrhain a Diogelu Cymru a'r Test and Trace yn Lloegr. Os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sy'n cael prawf coronafeirws positif bydd y swyddogion olrhain cysylltiadau'n rhoi gwybod i chi ac yn dweud wrthych beth i'w wneud.

Os oes gennych chi symptomau'r coronafeirws, gallwch ffonio **119** neu fynd ar **nhs.uk** i drefnu prawf COVID-19 am ddim.

Ond yr ap yw'r ffordd gyflymaf o weld a ydych mewn perygl o'r coronafeirws. Trwy gael gwybod hyn yn gyflym, gallwch ddweud wrth bawb o'ch cwmpas a'u diogelu nhw yn gyflym hefyd.

I lawrlwytho'r ap, chwiliwch am **NHS COVID-19 app**

GET IT ON Google Play | Download on the App Store

Roedd yr holl wybodaeth a delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar 24 Medi 2020.
Am ragor o wybodaeth, ewch i **covid19.nhs.uk**